



DIWYLLIANT  
CONWY  
CULTURE

HIRAETHOG

BONTUCHEL

CLOCAENOG

DEFNYDDIO'R  
GYMRAEG YN  
EICH BUSNES

Canllawiau  
Croeso

### Cyfle i elwa ar y Gymraeg!

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi gweld mwy o ddiddordeb yn hanes yr iaith Gymraeg a mwy o ddefnydd ohoni gan ymwelwyr â sir Conwy; mae hyn yn amrywio o gwestiynau am ynganu ac ystyr enwau lleoedd Cymraeg i ymholiadau am ddysgu Cymraeg ar-lein a'r lleoedd gorau i ymarfer siarad Cymraeg pan mae ymwelwyr yma.

***A oes ffyrdd y gallwch chi fanteisio ar y diddordeb hwn yn y Gymraeg er budd eich busnes?***

Lluniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'r pecyn hwn mewn partneriaeth â Menter Iaith Conwy. Y tu mewn fe ddewch chi o hyd i wybodaeth am y Gymraeg yn Sir Conwy a chynghorion a allai fod o fudd ichi wrth hyrwyddo eich busnes neu siarad gyda chwsmeriaid.

Mae'r Gymraeg yn rhan hanfodol o'n diwylliant yn Sir Conwy, a'n nod yw ei rhannu, gan helpu siaradwyr newydd ac ymwelwyr i ddarganfod ei swyn. Mae Creu Conwy yn hyrwyddo dathlu'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig mewn ffyrdd newydd, anturus, chwareus ac arloesol.

Am ragor o wybodaeth am Creu Conwy ewch i:  
**[Diwylliant Conwy | Creu Conwy.](#)**

This document is also available in English.

- Gall defnyddio'r Gymraeg gryfhau eich brand a denu mwy o gwsmeriaid yn ogystal ag amlygu proffil eich cwmni.
- Mae ymchwil yn dangos y gall cyflwyno gwahanol ieithoedd i gwsmeriaid greu profiad ystyrlon a chofiadwy. Gall geiriau ac ymadroddion anghyfarwydd gyfoethogi profiad yr ymwelydd a chyfrannu at naws lle – sef yr hyn sy'n gwneud rhywle'n wahanol. Mae hefyd yn ffordd wych o ddyfnhau eich cysylltiad â'ch cwsmeriaid.
- Mae'r Gymraeg ar gael yn rhad ac am ddim ac mae'n gyfoeth unigryw sy'n ychwanegu gwerth at eich cynnyrch neu wasanaeth trwy gysylltu treftadaeth a hunaniaeth ddiwylliannol Conwy â'r hyn rydych chi'n ei gynnig i'ch cwsmeriaid.

# Twristiaeth a'r Gymraeg yn Sir Conwy

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 29,000 o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yn Sir Conwy, sy'n cyfateb i 25.9% o'r boblogaeth, ac sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 17.8%.

Mae twristiaeth wedi bod yn elfen allweddol o ddiwylliant ac economi Sir Conwy ers cannoedd o flynyddoedd – o'r cyffro creadigol a arweiniodd at sefydlu cymuned o arlunwyr ym Metws-y-coed, at dwf ein trefi glan-môr drwy gydol oes Victoria yn Llandudno, Penmaenmawr, Llanfairfechan a Bae Colwyn.

## Yn flynyddol, mae'r sector twristiaeth yn sir Conwy'n:

- cyfrannu £900 miliwn at yr economi leol
- denu dros 7 miliwn o ymwelwyr dydd
- croesawu mwy na 2.5 miliwn o ymwelwyr sy'n aros, gyda nifer cynyddol o wledydd tramor
- cefnogi mwy na 12,000 o swyddi



## Beth allwch chi ei wneud?

Y pethau syml sy'n cyfrif!

Anogwch staff i wisgo bathodynau neu laniardau sy'n dangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg trwy ddefnyddio'r logo 'Iaith Gwaith'.

Mae hyn yn annog siaradwyr Cymraeg ac mae'n ennyn chwilfrydedd ymysg pobl sy'n dysgu Cymraeg neu nad ydynt yn siarad yr iaith.

Mae'r canllawiau hyn hefyd yn annog perchnogion a staff busnesau nad ydynt yn rhugl i ddefnyddio'r Gymraeg. Awgrymir eu bod nhw hefyd yn defnyddio ychydig o gyfarchion syml – byddai dweud 'Diolch' yn ffordd dda o gychwyn.

Cymraeg

**Bore da**  
Good morning

**Prynhawn da**  
Good afternoon

**Nos da**  
Goodnight

**Croeso**  
Welcome

**Su'mae / Sut wyt ti?**  
How are you?

**Penblwydd Hapus**  
Happy Birthday

**Hwyl**  
Bye

**Pob lwc**  
Good luck

**Iechyd da!**  
Cheers!  
(Good health)



## Arwyddion

Os ydych chi'n rhedeg atyniad ymwelwyr, mae'n hawdd cynnwys gwybodaeth a deunydd dwyieithog ym mhrofiad yr ymwelydd.

Peidiwch â bod ofn chwarae ar eiriau na dal yn ôl rhag defnyddio ffyrdd ysgafn a diddorol o gyflwyno ymadroddion Cymraeg (gweler ein blwch ar idiomau am rywffaint o ysbrydoliaeth!). Mae deunydd dwyieithog fel arfer yn fwy cost-effeithiol na chynhyrchu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Am gyngor a chanllawiau syml, cymerwch olwg ar y canllawiau cyfathrebu hyn gan Lywodraeth y DU:

**[2019-08-01\\_CYMRAEG\\_WEB\\_PUB.pdf \(publishing.service.gov.uk\)](#)**

## IDIOMAU AC YMADRODDION

### ***Bwrw hen wragedd a ffyn***

**Cyfieithiad llythrennol:**

Raining old wives  
and walking sticks

**Ystyr:**

Bwrw'n drwm iawn (fel 'raining cats and dogs' yn Saesneg)

### ***Cenedl heb iaith cenedl heb galon***

**Cyfieithiad:**

A nation without a language  
is a nation without a heart

### ***Dros ben llestri***

**Cyfieithiad llythrennol:**

Over the dishes

**Ystyr:**

Gormodol / allan o reolaeth

### ***Siarad fel melin bupur***

**Cyfieithiad llythrennol:**

Talking like a pepper mill

**Ystyr:**

Siarad yn ddi-baid

## Cyfieithu

Mae Helo Blod yn wasanaeth cyfieithu Cymraeg cyflym, cyfeillar a rhad ac am ddim, sy'n cynnig hyd at 10 o ymholiadau cyfieithu (hyd at gyfanswm o 500 o eiriau) a gwirio testun bob mis calendr.

**[Croeso i Helo Blod | Helo Blod \(gov.wales\)](#)**



## Defnyddio ychydig eiriau Cymraeg a ffeithiau diddorol yn eich gwybodaeth i ymwelwyr

Ystyriwch gyflwyno ychydig o eiriau ac ymadroddion sylfaenol, neu efallai eirfa o dermau cyffredin a ffeithiau am y Gymraeg, fel rhan o wybodaeth i ymwelwyr, boed hynny mewn llawlyfrau llety, hysbysfyrddau neu ddeunydd arall. Mae hyn yn aml yn ffordd dda o gychwyn sgwrs: fe welwch y bydd ar eich ymwelwyr eisiau gofyn cwestiynau a rhoi cynnig ar ynganu'r geiriau.

## ESBONIO ENWAU LLEOEDD I YMWELWYR

**afon** – river

**bach/fach** – small

**bryn** – hill

**caer** – fort

**carn/garn** – a cairn (burial mound)

**carreg** – rock

**castell** – castle

**coed/goed** – tree

**ffordd** – road

**ffynnon** – well

**Eryri** – Snowdonia

**llan** – parish

**llyn** – lake

**maen** – stone

**môr** – sea

**mawr/fawr** – large

**mynydd** – mountain

**nant** – valley

**penrhyn** – headland or promontory

**plas** – hall

**pont** – bridge

**stryd** – street

**traeth** – beach

Mae llawer o ymwelwr â Sir Conwy yn dwristiaid treftadaeth a diwylliant sydd â diddordeb mewn crwydro cestyll, eglwysi, hen adeiladau a henebion, ac maent yn aml â chwilfrydedd am hanes yr ardal. Mae rhannu ffeithiau am gymeriadau nodedig fel Llywelyn ap Iorwerth (Llywelyn Fawr c.1173-1240), tywysog Cymru, a gaiff ei goffáu gan gofgolofn fach ar Sgwâr Lancaster, Conwy, neu Esther Lloyd Jones a fu'n rheoli un o'r busnesau teithiau tywys dwyieithog yn yr ardal, yn ffordd dda o ennyn diddordeb ymwelwyr yn y dreftadaeth ddiwylliannol hon ac yn yr iaith Gymraeg.

## Wyddoch chi?

- Datblygodd y Gymraeg allan o'r hen iaith Geltaidd, Brythoneg, tua 550 OC. Oedd yn cael ei siarad ar draws rhannau helaeth o Brydain.
- Mae Cymraeg diweddar yn un o'r ieithoedd Celtaidd-P, sy'n rhannu patrymau gyda Chernyweg diweddar a Llydaweg diweddar.
- Cafodd y llawysgrif hynaf a ysgrifennwyd yn y Gymraeg ei lunio tua 1250. Fodd bynnag, credir bod y rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r farddoniaeth a'r rhyddiaith sydd mewn llawysgrifau Cymraeg canoloesol yn hŷn na'r llawysgrif ei hun.
- Ar y cychwyn, roedd y Gymraeg yn cael ei siarad ym mhobman yng Nghymru. Hyd yn oed yn ystod concwest Cymru gan y Normaniaid a'r Saeson (1066-1283), roedd tua 90% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg.
- Yn sgil y chwyldro diwydiannol yn y 19eg ganrif cynyddodd poblogaeth Cymru yn ddramatig, gyda phobl yn symud yma i weithio o bob rhan o Brydain ac Iwerddon. O ganlyniad, gostyngodd y ganran o siaradwyr Cymraeg i 49% erbyn 1901. Bellach tua 18% o bobl Cymru sy'n siarad Cymraeg.

## “ How do you say the name of this place?”

Y ffordd orau o ennyn diddordeb ymwelwyr yn y Gymraeg yw trwy enwau lleoedd a sut i'w hynganu. Mae enwau lleoedd hanesyddol yn rhan hanfodol o'n hanes a'n diwylliant cyfoethog. Maent yn aml yn ddisgrifiadol ac yn dweud wrthym am leoliad daearyddol, eiddo pwy oedd y lle, pwy oedd yn gweithio yno, neu ddigwyddiad yn ystod y cyfnod pan roddwyd enw i'r lle. Mae ymwelwyr yn mwynhau ymarfer ynganu, yn enwedig pan ddaw at enwau hir ar leoedd, a dysgu beth maen nhw'n ei feddwl. Dyma rai awgrymiadau ar sut i esbonio enwau lleol i ymwelwyr a dangos iddynt sut i'w hynganu.

### **Betws-y-coed -**

prayer house in the woods  
(bet-oos-uh-coyd)

### **Llanrwst -**

church of St Grwst (hlan-roost)

### **Penmaenmawr -**

great stone headland  
(pen-mine-mowrr)

### **Dwygyfylchi -**

two circular forts  
(dooy-guv-ulh-ee)

### **Llanfairfechan -**

little church of Mary  
(hlan-vire-veghan)

### **Llandudno -**

church of St Tudno (hlan-did-no)

### **Conwy -**

river of reeds (con-wee)

### **Carneddau -**

cairns (carneth-eye)

### **Capelulo -**

St Ulo's chapel (cappelillo)

### **Abergwyngregyn -**

estuary of the white shells  
(aber-gwin-greggin)

### **Caerhun -**

Rhun's fort (kire-heen)

### **Rowen -**

the white gravel (row-wen)

## Labelu

Gall labelu dwyieithog ar eich cynhyrchion neu fwydlenni feithrin teimlad o naws lle a blas lleol. Er enghraifft, mae bragdai lleol bach wedi enwi eu cwrw ar ôl nodweddion neu gymeriadau lleol. Mae gan fragdy Cwrw Nant o Bentrefoelas gwrw o'r enw *Tir Abad ac Aur y Felin*. Yn yr un modd, mae'r Original Welsh Candle Company wedi ychwanegu enwau a disgrifiadau newydd at eu canhwylau sy'n berthnasol i Sir Conwy, fel "rhwng môr a mynydd" – slogan marchnata traddodiadol Penmaenmawr.



## NEGES@HOME

Cynllun yw Neges@Home sy'n helpu busnesau i gyrraedd cwsmeriaid newydd, yn benodol ymwelwyr sy'n dod i'r ardal i fwynhau'r hyn sydd gan ogledd Cymru i'w gynnig. Mae mwy o wybodaeth ar gael a: [negesathome.co.uk](https://negesathome.co.uk)

### Mae gwasanaethau Neges@Home yn cynnwys:

- gwybodaeth am y farchnad o ran tueddiadau a disgwyliadau cwsmeriaid
- gwybodaeth a chyngor ar ddefnyddio'r Gymraeg
- hwyluso cydweithio â busnesau eraill
- comisiynu cymorth arbenigol i ddatblygu pecynnau bwyd
- treialu pecynnau bwyd trwy weithio gydag asiantau archebu, perchnogion bythynnod, safleoedd carafannau a chyrchfannau glampio
- cyfrannu at gostau dulliau gwyrdd o becynnu

# Cynllun Llysgennad Twristiaeth Conwy

Mae rhaglen Llysgennad Twristiaeth Conwy yn rhoi cyfle i bobl ddysgu am gynnig twristiaeth Sir Conwy. Mae'r cwrs ar-lein yn rhoi sylfaen o wybodaeth am hanes, treftadaeth, cynnig diwylliannol, tirwedd a gweithgareddau hamdden yr ardal er mwyn gwella profiad cyffredinol yr ymwelydd. Mae'r cwrs ar-lein hwn yn ddelfrydol ar gyfer:

- unigolion sy'n gweithio yn y diwydiant twristiaeth sydd eisiau ehangu eu gwybodaeth
- unigolion sy'n astudio cyrsiau twristiaeth
- busnesau sydd â'u bryd ar uwchsgilio staff i wella profiad yr ymwelydd
- unrhyw un sy'n byw yn ein hardal neu sydd â diddordeb ynddi ac a hoffai ddysgu mwy am yr hyn sydd gennym i'w gynnig i dwristiaid



Wrth ichi weithio'ch ffordd drwy'r cwrs, byddwch yn derbyn gwobrau efydd, arian ac aur a byddwch hefyd yn derbyn bathodyn a sticer ffenest Llysgennad Twristiaeth Conwy. Gellir arddangos y rhain mewn safle busnes neu eu hychwanegu at eich portffolio personol. Mae'r rhaglen yn cynnwys modiwl penodol ar y defnydd ymarferol o'r Gymraeg. Os hoffech wybod mwy neu gofrestru, yna ymwelwch â'r wefan:

[llysgennadconwy.cymru](http://llysgennadconwy.cymru)

## DIGWYDDIADAU

Gallwch annog ymwelwyr i wrando ar y Gymraeg yn cael ei siarad mewn marchnadoedd wythnosol mewn trefi fel Llanrwst, neu mewn sioeau amaethyddol lleol drwy gydol misoedd yr haf. Mae ffeiriau traddodiadol fel Ffair Fêl Conwy yn gyfle i brofi iaith a diwylliant yr ardal. Gall ymwelwyr hefyd fynd i fwynhau cyngherddau a pherfformiadau Cymraeg mewn tafarndai lleol, canolfannau cymunedol a theatrau fel Venue Cymru a Theatr Colwyn.

## AWGRYMIADAU YMARFEROL

- Darganfod beth sy'n digwydd yn lleol yn y Gymraeg (atyniadau, teithiau, gweithgareddau, digwyddiadau, bwyd a siopa).
- Annog a helpu eich staff i ddysgu neu wella eu Cymraeg.
- Cyflwyno geiriau Cymraeg i'ch busnes wrth adnewyddu neu agor safle newydd, wrth osod arwyddion mewnol ac allanol newydd, paratoi bwydlenni newydd, recriwtio staff, datblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd, ailagraffu llenyddiaeth neu ddatblygu eich gwefan.

# ASTUDIAETHAU ACHOS

## Arwydd Llanrwst

Fel rhan o ddathliadau'r Eisteddfod Genedlaethol yn 2019, codwyd arwydd anferth yn arddull arwydd enwog Hollywood uwchben y dref. Dringodd llawer o bobl i fyny'r allt i dynnu lluniau ohonynt eu hunain ger yr arwydd. Cefnogwyd y prosiect partneriaeth hwn, a arweinir gan Ffiwsar, gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac elfen LEADER o Raglen Datblygu Gwledig – Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014 – 2020, a gafodd ei chyllido gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.



## Amgueddfa Penmaenmawr

Mae gan yr amgueddfa gymunedol hon, sydd yng nghanol tref glan-môr Penmaenmawr, 4000 o wrthrychau, lluniau a dogfennau o'r ardal. Mae'r arddangosiadau, yr wybodaeth a'r gwasanaethau'n cael eu cyflwyno'n ddwyieithog, ac mae cymorth ar gael trwy drefniant i weld dogfennau Cymraeg yng nghasgliad yr amgueddfa. Yn ystod misoedd yr haf, mae'r amgueddfa'n cynnig cyfres o deithiau cerdded hanesyddol Cymraeg a sesiynau cyflwyno ymwelwyr i'r iaith Gymraeg.

[penmaenmawrmuseum.co.uk](http://penmaenmawrmuseum.co.uk)

## Zip World

Gogledd Cymru yw cartref ysbrydol breuddwyd Zip World o greu profiadau anhygoel a dyma lle mae canolbwynt busnes y cwmni o hyd. Y diwylliant a'r amgylchedd lleol yw'r hyn sydd wedi ysgogi twf y busnes ers iddo gychwyn yn 2013.

Mae gwaith Zip World yn cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg trwy ei fusnes yn canolbwyntio'n bennaf ar ei bolisiau staffio a chyflogi.

Mae, ar gyfartaledd, 70% o'r tîm yn byw o fewn 5 milltir i'w lle gwaith. Mae'r cyfleoedd cyflogaeth i'r ardal wedi tyfu wrth i'r cwmni dyfu. Mae pobl leol, Gymraeg eu hiaith wedi cael cyfle i gael swyddi sydd â chyflogau cystadleuol, gyda hyfforddiant trwy eu gwaith yn eu hardal leol.

Mae Zip World yn ymfalchïo yn y nifer o'r tîm sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae'r staff yn gwisgo bathodynau 'Cymraeg' fel y gall ymwelwyr Cymraeg eu hiaith eu hadnabod a derbyn gwasanaethau yn eu dewis iaith.

## Donegal Tours

*“ Nid Lloegr gydag acen ddigrif yw’r fan yma...”*

Y dewis perffaith ar gyfer ymwelydd prin ei amser yw taith diwrnod o Gaeltacht Donegal, lle caiff ddysgu ac ymarfer ymadroddion defnyddiol drwy gydol y daith, sy’n sicr o greu argraff ar ffrindiau a theulu pan fydd yn ôl adref. Mae’r mwyafrif o dywyswyr teithiau yn siaradwyr Gwyddeleg rhugl.

**Gwefan : [donegaltours.ie](http://donegaltours.ie)**

## Gwlad y Basg

Mae Gwlad y Basg (Euskadi) yn ymestyn o ogledd-ddwyrain Sbaen, lle mae’n ffurfio talaith sydd â’i llywodraeth ei hun, i ran o dde-orllewin Ffrainc. Mae ganddi ei hiaith unigryw ei hun, Euskara, sy’n hŷn na llawer o ieithoedd Ewropeaidd. Mae i’r iaith statws swyddogol yn y rhan o’r wlad sydd yn Sbaen, lle mae i’w chlywed a’i gweld yn helaeth (gyda’i hwyneb teip penodol ei hun) ar arwyddion, amserlenni trenau, papurau newydd a bwydlenni caffis.

## Ymweliadau fferm dwyieithog

Mae Gareth Wyn Jones, ffermwr yn Llanfairfechan, yn cynnig teithiau tywys o’i fferm i grwpiau o ymwelwyr. Yn ogystal â’u cyflwyno i hynt a helynt y diwydiant amaethyddol, mae’n mynd â’i gwsmeriaid i safleoedd hanesyddol. Un o uchafbwyntiau’r daith i ymwelwyr yw cyfle iddyn nhw roi gorchmynion Cymraeg i’w gi defaid ffyddlon!

## ADNODDAU ERAILL

### Llyfrgelloedd ac amgueddfeydd sirol

Mae gan Sir Conwy ddeg o lyfrgelloedd dwyieithog, gan gynnwys Canolfan Diwylliant Conwy, sydd hefyd yn gartref i gasgliadau archifau ac amgueddfeydd y sir. Bydd y staff cyfeillgar yn falch o’ch helpu i gael at ffynonellau perthnasol o wybodaeth bellach. Mae llyfrgelloedd i’w cael yn Abergele, Cerrigydrudion, Bae Colwyn, Conwy, Bae Cinmel, Llandudno, Llanfairfechan, Llanrwst, Penmaenmawr a Bae Penrhyn. Mae’r gwasanaeth hefyd yn cynnig e-lyfrau, llyfrau sain, papurau newydd a chylchgronau y gellir eu lawrlwytho yn rhad ac am ddim.

Mae gan y sir nifer helaeth o amgueddfeydd ac orielau gan gynnwys amgueddfeydd Llandudno a Phenmaenmawr, a Mostyn yn Llandudno. Mae staff a gwirfoddolwyr gwybodus bob amser wrth law i roi cyngor a chanllawiau. Am fwy o wybodaeth am y rhain a safleoedd a gwasanaethau diwylliannol eraill yn sir Conwy, ewch i: [diwylliantconwy.com](http://diwylliantconwy.com)

## Menter Iaith Conwy

Menter Iaith Conwy, sydd wedi ei leoli yn Llanrwst, yw prif gorff hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir, ac mae'n cynnig cyngor a chymorth ar bob agwedd o'r iaith, gan gynnwys cyrsiau penodol a chyngor i fusnesau a sefydliadau trydydd sector. Maent hefyd yn cynnal digwyddiadau fel perfformiadau cerddorol a drama. [miconwy.cymru](http://miconwy.cymru)



## Welsh for Visitors: A little goes a long way

Llawlyfr defnyddiol a gyhoeddwyd gan Gwasg Carreg Gwalch yn 2018 ar sut i ddefnyddio geiriau Cymraeg sylfaenol ac ymadroddion hawdd a all ymddangos mewn sgysiau o ddydd i ddydd. [carreg-gwalch.cymru](http://carreg-gwalch.cymru)



## Cynnig Cymraeg

Mae'r **Cynnig Cymraeg** yn gydnabyddiaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg a roddir i sefydliadau sydd â chynllun cryf i gynnig mwy o'u gwasanaethau yn y Gymraeg. Am fwy o wybodaeth gweler: **Cynnig Cymraeg [comisiynyddygyymraeg.cymru](http://comisiynyddygyymraeg.cymru)**



UK Government Wales  
Llywodraeth y DU Cymru

Cyllidwyd y pecyn canllawiau hwn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig trwy Gronfa Adfywio Cymunedol y Deyrnas Unedig.

## Yr ymchwil y tu ôl i'r canllawiau hyn

Comisiynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy brosiect yn 2022 i archwilio sut y caiff y Gymraeg ei defnyddio yn y sector twristiaeth lleol ar hyn o bryd, edrych ar agweddau at y Gymraeg ymysg ymwelwyr a busnesau twristiaeth, a darganfod beth oedd ar ymwelwyr a busnesau twristiaeth angen ei wybod er mwyn ymwneud mwy â'r Gymraeg. Arweiniodd canlyniadau'r ymchwil at gynhyrchu'r canllawiau hyn.

Yn yr arolwg o fusnesau lleol, ymwelwyr, siaradwyr a dysgwyr Cymraeg daeth y canlynol i'r amlwg:

- Agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg a dymuniad i'w gweld yn cael ei defnyddio
- Daeth rhai o'r sylwadau cryfaf o blaid hyrwyddo'r iaith gan bobl ddi-Gymraeg o'r tu allan i Gymru
- Fe wnaeth lleiafrif bach o ymwelwyr a busnesau fynegi barnau negyddol am y Gymraeg
- Roedd y mwyafrif o fusnesau yn awyddus i ddefnyddio'r Gymraeg a byddent yn hoffi mwy o gefnogaeth i wneud hynny

## Dywedodd ein harolwg fod...

**69%** o ymwelwyr di-Gymraeg a holwyd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y Gymraeg yn cyfoethogi profiad diwylliannol ymwelwyr.

---

**70%** o'r holl fusnesau a holwyd yn defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys pawb o'r rheini a lanwodd yr holiadur yn Gymraeg.

---

**76%** o fusnesau a gwblhaodd yr arolwg yn Saesneg naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno gyda'r datganiad fod y Gymraeg yn cyfoethi profiad ymwelwyr.

---

**71%** o fusnesau gwblhaodd yr arolwg yn Saesneg naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno fod y Gymraeg o fudd i fusnesau, o gymharu â 100% o ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg busnes yn Gymraeg.

---

## Sylwadau ymwelwyr...

**" I love the sound of the language; it sounds warm to me"**

**" Love that people are keeping the language alive..."**

**" It should be preserved and celebrated"**

## Busnesau...

**" Dw i'n defnyddio'r Gymraeg bob dydd gydag unrhyw un sy'n dymuno siarad yr iaith..."**

**" Mae popeth rydym yn ei wneud yn ddwyieithog"**

**" I try to say 'bore da' in the morning and have Diolch signs"**